Llywydd,

Fel y bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol, ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd y Llywydd, arweinwyr grwpiau plaid a minnau fel Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddatganiad ar y cyd yn nodi:

- ymrwymiad i sicrhau nad oes lle i ymddygiad amhriodol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

- awydd i sicrhau pawb sy'n gweithio yma a'r rhai sy'n ymweld â ni y byddant yn rhydd o unrhyw fath o aflonyddwch. P'un ai yma yn y Senedd, mewn swyddfa etholaeth neu allan yn y gymuned, dylai pawb deimlo eu bod yn cael eu trin â pharch pan fyddant yn dod ar draws cynrychiolwyr y sefydliad hwn.

Mae'r datganiad ar y cyd yn nodi nifer o gamau a fwriadwyd i sicrhau bod y Cynulliad yn sefydliad cynhwysol sy'n rhydd rhag bygythiad ac aflonyddu. Roedd y camau hyn yn cynnwys datblygu Polisi Urddas a Pharch, sefydlu gwasanaeth cyfeirio cwynion cyfrinachol a sicrhau bod y weithdrefn gwynion yn glir ac yn gyson. Mae'r gwaith ar y gweill, a bydd polisi Urddas a Pharch yn cael ei osod gerbron y Cynulliad yn fuan.

Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ymgymryd ag ymholiad mwy eang i greu'r diwylliant cywir yn y Cynulliad. Credwn y dylai'r Cynulliad osod esiampl a rhoi arweinyddiaeth glir a chref ar y math o ddiwylliant yn y gweithle yr hoffem ei weld yng Nghymru. Rydym yn ystyried y gweithdrefnau sy'n bodoli eisoes ynghylch cwynion sy'n ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad i sicrhau eu bod yn briodol ac yn glir. Mae'n rhaid i unigolion deimlo eu bod yn gallu cyflwyno yn hyderus unrhyw bryderon yngl ŷ n ag ymddygiad amhriodol.

Rydym wedi cynnal ymgynghoriad agored, a anelwyd at ganfod a yw'r weithdrefn gwyno gyfredol yn hawdd ei deall ac yn hygyrch; ac a oes unrhyw rwystrau i bobl o ran codi pryderon ynghylch ymddygiad unrhyw un sy'n gysylltiedig â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Er bod yr ymgynghoriad bellach wedi'i gau'n ffurfiol, mae pobl bob amser yn cael eu hannog i gyflwyno awgrymiadau ar sut i wella'r broses neu o ran unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Ar hyn o bryd rydym yn cymryd tystiolaeth gan grwpiau ac unigolion sydd wedi cytuno i siarad â'r Pwyllgor am eu profiadau.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r rhai sydd wedi cynnig eu barn i'r Pwyllgor yn ystod y misoedd diwethaf. Yr wyf yn arbennig o ddiolchgar i'r rhai sydd wedi cytuno i siarad â ni. Heb ddeall profiadau pobl eraill, mae'n anodd iawn nodi'r heriau yn y Cynulliad a chanfod yn union sut y gellir gwella'r diwylliant. Fel Pwyllgor, rydym yn benderfynol y bydd y safbwyntiau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y cyfnod adrodd.

Er ein bod yn dal i ymgymryd â'n hymchwiliad, un o'r negeseuon allweddol a glywsom hyd yn hyn yw y byddai cyfathrebu ac eglurder gwell o gwmpas y weithdrefn gwyno yn helpu i wella hyder yn y system.

Gan adeiladu ar y darpariaethau presennol o fewn cod ymddygiad Aelodau'r Cynulliad, bydd y polisi urddas a pharch newydd yn helpu i egluro'n glir nad oes lle i ymddygiad amhriodol yn y Cynulliad hwn.

Yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau'n cytuno ei fod yn bwysig tynnu sylw at ymddygiad amhriodol. Rydyn ni i gyd yn gyfrifol am sicrhau nad ydym yn gwneud dim ac yn gadael i bethau ddigwydd.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ail-bwysleisio bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru Gomisiynydd Safonau hollol annibynnol sy'n archwilio'n ddiduedd i unrhyw bryder neu gŵyn a godir gydag ef. Gellir cysylltu ag ef dros y ffôn, e-bost neu'n ysgrifenedig. Bydd bob amser yn ceisio helpu, naill ai trwy ddelio'n uniongyrchol â phryderon neu eu cyfeirio i'r cyfeiriad cywir. Mae llinell gymorth wedi'i sefydlu ar gyfer y rhai sy'n ansicr ai trwy'r Comisiynydd y mae'r ffordd fwyaf priodol i gyflwyno cwyn. Mae'r rhif hwn ar y wefan ac ar bosteri o gwmpas yr ystâd. Os yw unrhyw Aelodau am drafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r weithdrefn gwyno gyda'r Comisiynydd, bydd ar gael yn y Senedd yn ystod y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth nesaf.

Yn ogystal â'r Comisiynydd, mae Aelodau'r Pwyllgor Safonau ar gael hefyd i drafod unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â'r weithdrefn gwyno, a bydd Aelod o'r Pwyllgor ar gael yn ystod y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth nesaf.

Mae'n cymryd llawer iawn o ymrwymiad, amser a dyfalbarhad i gyflawni newid diwylliannol ystyrlon. Heddiw, rwyf wedi nodi camau cynnar y broses gan sicrhau

bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyflawni ei nod i fod yn sefydliad sy'n galluogi ac yn rhoi grym i bobl. Rwy'n hyderus bod pob un ohonom yn y Siambr hon yn rhannu'r nod hwn ac y bydd pawb yn fodlon chwarae eu rhan wrth sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni.

Diolch